**Y Pasg**

**Darllen Ioan 19:30 Darllen: Ioan 19:30**

Rhoddir pwys mawr ar eiriau olaf pobl enwog. Geiriau olaf Thomas Charles o'r Bala oedd, 'Y mae noddfa'. Ac yn ôl pob hanes dyma a ddywedodd Oscar Wilde, 'Naill ai y mae'r papur wal yma'n mynd neu mi ydw i'n mynd!' Canolbwyntiwn ar un o eiriau olaf Iesu, ar y groes, 'Gorffennwyd' neu tetelestai yn yr iaith Roeg. Gwell cyfieithiad fyddai 'Cyflawnwyd'. Dim ond Efengyl Ioan sy'n cofnodi'r gair hwn.

Ond cyflawni beth? Nid yw Iesu'n cyhoeddi bod y diwedd wedi dod a bod y gwaith a'r holl ymdrech ar ben. Nid gwaedd o ollyngdod sydd yma am fod popeth drosodd, ond gwaedd fuddugoliaethus am fod nod a phwrpas ei genhadaeth wedi'i chyrraedd a phwrpas Duw yn ei anfon i'r byd wedi'i gyflawni. Mae'r hyn y mae'r Tad wedi'i ofyn ganddo wedi'i gyflawni, 'Rwyf wedi llwyddo'. Yr oedd ei farwolaeth, a'r ffordd y bu farw, yn fuddugoliaeth ogoneddus. Mewn ffordd, gellir cymryd y geiriau hyn fel canolbwynt Efengyl Ioan gan fod y groes, i'r efengylydd, yn uchafbwynt bywyd a gweinidogaeth Iesu Grist. I Ioan, buddugoliaeth oedd croes Calfaria, nid methiant; a gellir dweud fod buddugoliaeth bore'r Pasg wedi cychwyn ym muddugoliaeth Calfaria. Mae Iesu wedi gorffen y gwaith o'i roi ei hun yn gyfan gwbl a diarbed dros y byd. Yma, mae Iesu, wrth farw, yn gorchfygu; ac wrth iddo ildio i farwolaeth mae hefyd yn ei drechu.

Yn dilyn y floedd fuddugoliaethus, mae Ioan yn cofnodi, 'Gwyrodd ei ben, a rhoi i fyny ei ysbryd' (Ioan 19:30). Y gair a ddefnyddiodd Ioan yw'r gair y gellid ei ddefnyddio am rywun yn setlo'n ôl ac yn gorffwyso'i ben ar obennydd. I Iesu, roedd y frwydr fawr a'r artaith drosodd. Roedd y frwydr wedi'i hennill. Ac ar y groes fe wyddai beth oedd y llawenydd a'r fuddugoliaeth, ac felly gallai wyro'i ben yn dangnefeddus o wybod ei fod wedi cyflawni a chwblhau'r gwaith a roddwyd iddo.

Gellir awgrymu ymhellach fod Iesu wedi dewis yr eiliad i farw trwy wyro'i ben. Fel arfer, byddai'n anodd i'r drwgweithredwr anadlu'n naturiol ac effeithiol ar y groes. A phan fyddai ei goesau'n cael eu torri, byddai'n amhosibl i'r croeshoeliedig wthio'i gorff i fyny a byddai'r corff yn suddo ac yn ei gwneud yn amhosib iddo anadlu. Mae Efengyl Ioan yn awgrymu na adawodd Iesu i hyn ddigwydd, a'i fod wedi dewis ei amser i wyro'i ben ac i'w fywyd ddod i ben. Dewisodd ei awr i farw.

Mae'r gwaith wedi'i wneud. 'Y mae gan y llwynogod ffeuau, a chan adar yr awyr nythod, ond gan Fab y Dyn nid oes lle i roi ei ben i lawr' (Mathew 8:20), ond bellach mae ganddo yntau le i roi ei ben i lawr.

**Myfyrdod pellach:**
Sut fyddech chi'n mynd ati i bwyso a mesur y cysyniad fod Iesu wedi 'cyflawni' ei waith ar y groes? Tybed ydi Efengyl Ioan yn mynd yn rhy bell trwy awgrymu fod Iesu wedi dewis ei eiliad i farw?

***Huw John Hughes***